

## Y Digartref

### Darlleniad: Salm 34:18

---

---

‘Homeless - Please Help.’

Darllenais y geiriau wrth fynd heibio ...

rhoddais wên iddo wrth fynd heibio ...

do, es heibio a llais bach yn lleddfu fy nghydwybod:

‘Paid â phoeni, nid dy gyfrifoldeb di mohono.’

Ond, Arglwydd, gwnest ni’n gyfrifol am ein gilydd,  
am gymydog ... a dieithryn.

Arglwydd, mae gan lwynogod ffeuai,

a chan adar yr awyr nythod,

ond gan Fab y Dyn nid oedd lle i roi ei ben i lawr.

Fe wyddost am grwydro, am fyw ar drugaredd eraill.

Oes, mae gennyt gydymdeimlad â’r digartref.

Yn ystod dy fywyd gwrthodaist gamu dros yr amddifad a’r  
diymgeledd a’u hanwybyddu.

Dyro, os gweli’n dda, i drigolion ein dinasoedd cardbord,  
a’r byd yn oer a thywyll a digariad iddynt, wres a goleuni dy  
gariad.

Dyro iddynt ryw arwydd o’th gydymdeimlad,

rhyw argoel o’th bresenoldeb yng nghanol eu hynt a’u helynt.

Gwna hynny ynom a thrwom ni.

Ninnau,

sy’n rhy aml fel y Lefiad a’r offeiriad yn cerdded heibio;

yn arswydo rhag ein cyfrifoldeb.

Ninnau,

heb awydd baeddu ein dwylo yn dy wasanaeth.

Ninnau,

yn gwrthod cyfieithu geiriau yn weithredoedd.

Ninnau,

a’n ffydd heb ddillad gwaith.

Ninnau, bob un ohonom

yn rhan o'r system sy'n llethu, bychanu a dibrisio;  
yn cadw dyndod llawn oddi wrth ein cyd-aelodau, a ninnau  
o'th deulu mawr.

Os gweli'n dda,  
deffra ein cydwybod,  
goleua ein dychymyg.

Atgoffa ni o'r newydd am esiampl y Samariad Trugarog:

'Caru dynion a'u gwasanaethu,  
dyma'r ffordd i garu Iesu.'

Atgoffa ni dy fod ti ym mhawb a phawb ynot ti.

Os gwelwn un o'th blant,  
un o'n brodyr neu'n chwiorydd heddiw ar lawr,  
n'ad inni gerdded heibio a gwadu ein cyfrifoldeb,  
rhag inni orfod holi ryw ddydd,

'Arglwydd, pryd y'th gwelsom di'n newynog neu'n  
sychedig

neu'n ddieithr neu'n noeth neu'n glaf neu yng ngharchar  
heb weini arnat?' 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, yn  
gymaint ag i chwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn,  
nis gwnaethoch i minnau chwaith.' Amen.

*Owain Llyr Evans*